ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

# Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2017/18 (Dros Dro)

**4 Hydref 2018**
**SFR 90/2018**


## Disgyblion ym mlwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

### Canlyniadau allweddol ar gyfer 2017/18:

- Cyflawnodd 55.1 y cant o ddisgyblion y trothwy cynwysedig lefel 2.
- Cyflawnodd 29.4 y cant o ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim (PYD) y trothwy cynwysedig lefel 2 o'i gymharu â 61.7 y cant o'r rhai sydd ddim yn gymwys.
- Y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio oedd 350.1 (350.9 yn 2016/17).
- Cyflawnodd 64.9 y cant o ddisgyblion gradd TGAU A*-C yn Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.
- Cyflawnodd 63.5 y cant o ddisgyblion gradd TGAU A*-C yn unai Mathemateg neu Rhifedd.
- Cyflawnodd 18.0 y cant o ddisgyblion 5 gradd TGAU A*-A (neu cyfatebol).

### Prif ddangosyddion


**Siart 1: Canran y disgyblion a gyflawnodd drothwyon amrywiol**




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 (p) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 88.2 | 89.7 | 90.3 | 91.8 | 93.2 | 94.0 | 94.4 | 95.3 | 94.4 | 93.6 |
| Lefel 2 | 60.7 | 63.8 | 67.3 | 72.6 | 77.8 | 82.3 | 84.1 | 84.0 | 67.0 | 66.9 |
| Lefel 2 cynwysedig | 47.2 | 49.4 | 50.1 | 51.1 | 52.7 | 55.4 | 57.9 | 60.3 | 54.6 | 55.1 |

Bu cynnydd o hanner pwynt canran i 55.1 y cant yn y canran a gyflawnodd y trothwy cynwysedig lefel 2.

Mae gwneud cymariaethau â pherfformiad cyn 2016/17 yn anodd oherwydd newidiadau sylweddol yn y modd y cyfrifir y ffigurau. gweler y nodiadau am ragor o wybodaeth.




## Am y datganiad

Mae'r Datganiad Ystadegol yn cyflwyno dadansoddiad dros dro o arholiadau allanol disgyblion ym mlwyddyn 11 (CA4) neu digyblion 17 oed yn y chweched dosbarth (CA5) ar ddechrau y flwyddyn academaidd yn 2017/18 ac yn ysgolion yng Nghymru. Gwelwch y tablau cysylltiedig am ragor o ddata a wybodaeth.

## Diffiniadau

**Lefel 1**
5 TGAU (neu cyfatebol) gradd A*-G

**Lefel 2**
5 TGAU (neu cyfatebol) gradd A*-C


**Lefel 2 cynhwysol**
5 TGAU (neu cyfatebol) gradd A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg


**Lefel 3**
2 Lefel A (neu cyfatebol) gradd A*-E fel canran o'r rhai a gofrestrodd am 2 neu fwy.

Ystadegydd: Stephen Hughes 0300 025 5060 ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

**Siart 2: Canran y disgyblion ym mlwyddyn 11 yn cyflawni trothwy amrywiol, yn ôl statws PYD, 2017/18 (cymwys am PYD and ddim yn gymwys am PYD)**








Mae disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim os mae eu teulu yn derbyn rhai budd-daliadau / taliadau cymorth, sydd wedi'u hamlinellu yn y dudalen we hon.

Mae disgyblion sydd ddim yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn gyson yn cyflawni canlyniadau uwch na disgyblion sydd yn gymwys. Bu gostyngiad bach yn y bwlch (0.1 pwynt canran) ar gyfer y trothwy cynwysedig lefel 2 yn 2017/18 ond bu cynnydd yn y trothwy lefel 1 (0.4 pwynt canran).

## Perfformiad fesul pwnc

**Siart 3: Disgyblion blwyddyn 11 fesul pwnc TGAU unigol**




| | Saesneg / Cymraeg | Saesneg | Cymraeg | Gorau o Fathemateg | Mathemateg | Rhifedd | Gwyddoniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 (p) | 64.9 | 62.6 | 74.3 | 63.5 | 59.4 | 58.0 | 63.0 |
| 2016/17 | 65.0 | 63.7 | 74.2 | 62.5 | 58.7 | 56.9 | 75.6 |
| 2015/16 | 70.4 | 69.3 | 75.1 | 66.9 | .. | .. | 82.4 |
| 2014/15 | 69.7 | 68.6 | 75.2 | 64.4 | .. | .. | 84.0 |
| 2013/14 | 67.2 | 66.2 | 73.7 | 61.7 | .. | .. | 82.3 |

Mae perfformiad yn Saesneg/Cymraeg yn debyg i 2016/17, tra mae perfformiad ym mathemateg wedi gwella.

Mae'r gostyngiad yn A*-C yng Ngwyddoniaeth oherwydd nid yw cymwysterau galwedigaethol gwyddoniaeth yn cael eu cynnwys yn y dangosydd hwn o eleni ymlaen.

**17.3%**

o ddisgyblion (5,266 allan o 30,373) yn cofrestru am **Gymraeg fel iaith gyntaf** (17.1% in 2016/17)


# Disgyblion 17 oed mewn ysgolion (Cyfnod Allweddol 5)

## Prif ganlyniadau ar gyfer 2017/18:

- Cyfrifir trothwy lefel 3 fel y canran o ddisgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o gymwysterau yn gyfatebol i 2 lefel A a gyflawnodd 2 lefel A gradd A*-E.
- 9,428 (88.8 y cant) o ddisgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o gymhwysterau yn gyfatebol i 2 lefel A.
- 97.6 y cant o'r rhain wedi cyflawni'r trothwy lefel 3.
- 58.1 y cant o ddisgyblion a gofrestrodd am gyfaint o gymhwysterau yn gyfatebol i 2 lefel A yn cyflawni 3 A*-C.
- 13.4 y cant o ddisgyblion a gofrestrodd am gyfaint o gymhwysterau yn gyfatebol i 2 lefel A yn cyflawni 3 A*-A.

## Prif ddangosyddion


### Siart 4: Canran y disgyblion 17 oed a gyflawnodd y trothwy lefel 3





| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 (p) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 3 | 95.9 | 94.8 | 96.5 | 96.9 | 96.5 | 97.1 | 97.0 | 98.0 | 97.1 | 97.6 |

Bu cynnydd o 0.5 pwynt canran (i 97.6 y cant) yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y trothwy lefel 3 yn 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Siart 5: Canran y disgyblion 17 oed a gyflawnodd graddau lefel A amrywiol




| | 3 A*-C | 3 A*-A |
|---|---|---|
| 2017/18 (p) | 58.1 | 13.4 |
| 2016/17 | 54.7 | 10.5 |
| 2015/16 | 38.3 | 6.7 |




Bu cynnydd o 3.4 pwynt canran (i 58.1 y cant) yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd 3 gradd A*-C yn lefel A o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd hefyd yn y canran a gyflawnodd 3 gradd A*-A, yn cynyddu 3.0 pwynt canran I 13.4 y cant.

## Diffiniadau

Mae'r sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio yn ffocysu ar ganlyniadau disgyblion Blwyddyn 11 ar gyfer naw o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion penodol i bynciau. Mae'r mesur hwn yn cydnabod perfformiad ac yn dyrannu pwyntiau ar draws y sbectrwm cyfan o raddau er mwyn adlewyrchu lefelau cyrhaeddiad pob dysgwr yng Nghymru. Mae'r prif newidiadau i'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio fel a ganlyn. Mae dadansoddiad o'r sgôr hwn ac esboniad o'r dull a ddefnyddiwyd i'w chyfrifo ar gael yma.

O 2017/18 ymlaen, nid yw cymwysterau galwedigaethol yng Ngwyddoniaeth yn cyfri tuag at y mesur Gwyddoniaeth A*-C nac yn y pynciau craidd fel rhan o'r sgôr pwyntiau cyfartalog. Mae hyn wedi cael effaith fwy ar ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim.

O 2016/17 ymlaen, bydd uchafswm o 2 gymhwyster galwedigaethol yn cyfrif tuag at fesurau trothwy. Mae hyn, yn ogystal â'r newid i beidio cynnwys llenyddiaeth yn y mesurau Saesneg a Chymraeg, dylid gwneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol gyda rhybudd yn rhan fwyaf o achosion.

## Statws Ystadegau Gwladol

Dyma'r cyhoeddiad cybtaf o'r ystadegau yma, ac felly nid ydynt wedi'u hasesu gan yr Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i'w dynodi'r fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Ar hyn o bryd, mae'r ystadegau yn cael eu trin fel ystadegau swyddogol. Er hynny, dylai pob ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod.

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r ystadegau hyn i'r Awdurdod Ystadegau ar gyfer asesu yn erbyn y safonau sy'n ofynnol o Ystadegau Gwladol. Nid yw dyddiad ar gyfer hyn wedi'i benderfynu eto.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef creu Cymru fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth ac iach, sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, â chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Cafodd y 46 dangosydd cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys 1 o'r dangosyddion cenedlaethol sef dangosydd rhif 7, y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i

gapio, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a wneir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn fod yn naratif i ategu'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau o lesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol

## Gwybodaeth bellach

Mae'r ddogfen ar gael yn: http://llyw.cymru/statistics-and-research/examination-results/?lang=cy

## Diweddariad nesaf

Rhagfyr 2018

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch eich sylwadau drwy e-bost i ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r cynnwys cyfan ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.

OGL